Annwyl Glerc,

Diolch i chi am yr hysbysiad blaengar eich bod yn cysidro fy neiseb eto yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Deisebau.

Hoffwn ddechrau drwy groesawu'r adroddiad hir-ddisgwyliedig ar gysylltiadau trafnidiaeth Afon Menai gan Gomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru, ac mae'r argymhellion yn mynd i'r afael â rhai o'r problemau cyfredol gyda chroesi'r Afon Menai.

Hoffwn wneud sylwadau penodol ar Argymhellion 3-5 ar astudio ac efallai ail-ddylunio'r cyffyrdd cyn ac ar ôl Pont Britannia - o brofiad personol, y cyffyrdd yma sydd yn aml wedi creu problemau gyda llif traffig dros y bont, felly rwy'n credu dylai Llywodraeth Cymru blaenoriaethu edrych i mewn i'r rhain.

Hoffwn hefyd tynnu sylw tuag at Argymhelliad 7 i gynyddu amlder o drenau'n galw yn Llanfair PG. Fel hyrwyddwr cryf dros reilffyrdd, rwy'n credu bydd hyn yn elwa'n fawr i hyrwyddo sifft foddol tuag at drafnidiaeth gyhoeddus, yn enwedig tuag at drenau, bydd, yn y pen draw, yn cael effaith positif ar newid hinsawdd.

Ar y pwyntiau penodol wnaeth y Comisiwn wneud ar Drydedd Bont dros y Fenai, hoffwn ddiolch iddynt am ychwanegu hwn yn eu hadroddiad ac ar eu dealltwriaeth bod yna resymau dros adnewyddu'r cynllun yn y dyfodol, â chyfeiriad tuag at ddatblygiadau potensial yn Wylfa Newydd hoffwn hefyd ychwanegu fy nghefnogaeth gan rwy'n credu'n gryf bydd Pŵer Niwclear yn bwysig iawn i ddatgarboneiddio cynhyrchiad trydan. Rwy'n deall bydd rhaid i unrhyw bont newydd gyrraedd 4 prawf Llywodraeth Cymru ar adeiladu ffyrdd newydd, ac os caiff hwn ei gysidro eto yn y dyfodol hoffwn gyfeirio yn ôl at fy natrysiadau personol wnes i sôn yn fy ymateb i'r Dirprwy Weinidog i gyrraedd y pwyntiau yma.

Rwy'n oll gobeithio bydd Llywodraeth Cymru yn darllen yr argymhellion o fewn yr adroddiad yma a dylai gwaith ddechrau i'w gweithredu o ddifri.

Er ei fod tu allan i gwmpas cyffredinol fy neiseb, hoffwn hefyd gwneud sylw byr ar adroddiad terfynol Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru, yn benodol ar eu pwyntiau am reilffyrdd.


Ar dudalen 36 o'r adroddiad, maent yn gwneud y sylw "Nid ydym yn cefnogi ailsefydlu rheilffyrdd yng ngogledd Cymru ar hyn o bryd." Rwy'n credu bod hyn yn sylw siomedig iawn gan y Comisiwn a hoffwn ofyn i Lywodraeth Cymru os maent yn cytuno hefo'r pwynt penodol yma. Mae gwaith anhygoel wedi digwydd yn barod gan wirfoddolwyr i glirio'r lein hen rhwng Amlwch a Gaerwen ar Ynys Môn, felly rwy'n siomedig iawn i ddarllen sylwadau'r Comisiwn y byddent yn cefnogi troi'r ased gwerthfawr yma i mewn i lwybr Teithio Llesol.

Yn ogystal, mae'n gwbl siomedig hefyd am eu sylwadau nad ydynt yn cefnogi agor gorsafoedd newydd yng Ngogledd Cymru, oni bai'r orsaf yng Nglannau Dyfrdwy, gan fod llawer o gymunedau ledled Gogledd Cymru heb fynediad hawdd i'r rhwydwaith rheilffordd genedlaethol. Mae sylwadau fel y rhain dim ond yn cryfhau'r gred bod arian yn cael ei wario yn Ne Cymru tra bod y Gogledd yn colli allan ar gyfleoedd buddsoddiad da.

Er bod y pwyntiau yma ar wahân i beth roedd fy neiseb wreiddiol yn sôn am, rwy'n credu bod cyfeirio atynt yn bwysig gan all yr adroddiad arwain at golli cyfleoedd buddsoddi yng Ngogledd Cymru fel mae wedi'i ysgrifennu ar hyn o bryd.

Rwy'n edrych ymlaen at wylio'r ddadl yn y Pwyllgor Deisebau ar y 29ain o Ionawr.

Yn gywir,



**Emyr Owen**